Nodau Datblygu'r Mileniwm
Nod Datblygu'r Mileniwm 7 – Sicrhau cynaladwyedd amgylcheddol

Gwybodaeth a gweithgareddau

Targed – Integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy mewn polisïau a rhaglenni gwledydd a gwyrdroi'r golled o adnoddau amgylcheddol.

Targed – Erbyn 2015, haneru'r gyfradd o bobl heb fynediad at ddŵr yfed diogel.

Targed – Erbyn 2020, sicrhau gwelliant sylweddol ym mywydau o leiaf 100 miliwn o drigolion slymiau.

Mae ein hamgylchedd dan fwy o fygythiad nag erioed. Yn sgil gweithgareddau dynol ynghyd â thechnoleg a thrafnidiaeth, mae coedwigoedd yn diflannu, pysgod ac anifeiliaid yn diflannu, a llygredd yn cynyddu. Mae defnydd direolaeth o adnoddau naturiol yn effeithio ar bob un ohonom, ond yn aml mae'n anoddach i bobl dlawd amddiffyn eu hunain.

Weithiau mae angen gwneud dewisiadau anodd rhwng twf economaidd ac amgylchedd glân – dewisiadau y mae angen i ni eu hwynebu er lles cenedlaethau'r dyfodol. Mae gwledydd sydd newydd ddatblygu, megis India a China, yn llygru'n sylweddol. Fodd bynnag, os mai'r pris i'w dalu am lewyrch yw niweidio'r amgylchedd, rydym yn dinistrio ffynhonnell ein cyfoeth. Mae angen i wledydd y byd daclo'r broblem hon ar y cyd.

Hefyd mae angen gwella'r amgylchedd i bobl sy'n byw mewn slymiau ar fyrder. Ar hyn o bryd, mae treian o boblogaeth y byd yn byw mewn slymiau dinesig neu drefi sianti. Mae nifer o ddinasoedd mewn gwledydd sy'n datblygu yn parhau i weld twf cyflym yn y boblogaeth, ac eto heb adnoddau i gynllunio ar ei gyfer.

Mae amgylchedd gwell yn bosibl i ni i gyd. I'w gyflawni, rhaid i ni fynnu fod arweinwyr y byd yn cadw at eu haddewidion.

Ymysg y gweithgareddau ar gyfer y nod hwn

Astudiaeth achos Haiti
Gwybodaeth am ddinas Port-au-Prince yn Haiti, lle mae rhai pobl yn byw mewn slymiau.

Y gwirionedd am slymiau
Cwis i'r disgyblion am y slymiau, yna ystyried sut y gellid goresgyn y broblem.

Dyfodol dewisol
Gofyn i'r disgyblion lunio diagramau i ddangos sut le fydd yn y dyfodol os na fyddwn yn gweithredu dros yr amgylchedd.

Mae Oxfam wedi ymrwymo i ddarparu'r gefnogaeth orau posibl i ysgolion a grwpiau ieuenctid, ac rydym am asesu effaith ein gwaith gyda phobl ifanc.

Defnyddiwch y slip isod i ddweud wrthym am eich gwersi neu brosiectau NDM neu anfonwch ebost at education@oxfam.org.uk

……✂……

Enw Athro:

Enw a Chyfeiriad yr Ysgol:

Cod Post:

Ebost*

Nifer o ddisgyblion sy'n dysgu am yr NDM:
Oedran disgyblion:

Disgrifiad addysg NDM:

Dychwelwch y slip hwn at:

Tîm Ieuenctid ac Ysgolion Oxfam
Oxfam House
John Smith Drive
Rhydychen OX4 2JY

*Nodwch eich cyfeiriad ebost er mwyn derbyn negeseuon gennym am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Gallwch dynnu'ch enw oddi ar y rhestr ar unrhyw adeg. Hoffem eich hysbysu am ein prosiectau a'n gweithgareddau. Fodd bynnag, pe bai'n well gennych beidio derbyn gwybodaeth o'r fath, anfonwch ebost at changes@oxfam.org.uk, ffoniwch 0300 200 1300 neu ysgrifennwch at Cyswllt Cefnogwyr, Oxfam House, John Smith Drive, Rhydychen OX4 2JY.

Nod Datblygu'r Mileniwm 7 – Sicrhau cynaladwyedd amgylcheddol

Targed – Integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy mewn polisïau a rhaglenni gwledydd a gwyrdroi'r golled o adnoddau amgylcheddol.

Targed – Erbyn 2015, haneru'r gyfradd o bobl heb fynediad at ddŵr yfed diogel.

Targed – Erbyn 2020, sicrhau gwelliant sylweddol ym mywydau o leiaf 100 miliwn o drigolion slymiau.

Mae ein hamgylchedd dan fwy o fygythiad nag erioed. Mae twf cyflym cynhyrchu diwydiannol a lledaeniad systemau trafnidiaeth tanwydd ffosil yn golygu fod coedwigoedd yn diflannu, pysgod, anifeiliaid a bioamrywiaeth yn marw, a llygredd yn cynyddu. Mae'r defnydd direolaeth hwn o adnoddau naturiol yn effeithio ar bob un ohonom, ond yn aml mae'n anoddach i bobl dlawd amddiffyn eu hunain rhag y canlyniadau.

Yn aml mae angen gwneud dewisiadau anodd rhwng twf economaidd heddiw ac amgylchedd glân ac iach yn y dyfodol. Os mai'r pris am lewyrch ar gyfer ambell un yw niweidio'r amgylchedd ar ein cyfer i gyd, rydym yn dinistrio ffynhonnell ein cyfoeth a'n lles tymor hir. Mae angen i wledydd y byd daclo'r broblem hon gyda'n gilydd.

Wrth i leiafrif o bobl y byd fwynhau cyfoeth materol digynsail, mae nifer o rai eraill heb hanfodion sylfaenol bywyd. Mae dros biliwn o bobl heb fynediad at ddŵr yfed diogel,[1] a bron i ddau a hanner biliwn heb gyfleusterau glanweithdra megis toiledau a charthffosiaeth.[2]

Ar hyn o bryd, mae bron i hanner poblogaeth y byd yn byw mewn dinasoedd neu drefi, ac yn 2005 roedd treian o drigolion dinesig yn byw mewn slymiau. Mae dinasoedd mewn gwledydd sy'n datblygu yn parhau i brofi twf cyflym yn y boblogaeth, ond heb yr adnoddau i gynllunio na'i reoli. Rhaid i lywodraethau wneud mwy i ddarparu gwasanaethau megis dŵr a glanweithdra i drigolion slymiau – ond mae angen mwy o gymorth rhyngwladol i lwyddo.

Mae'n bosibl sicrhau amgylchedd gwell i ni i gyd. Ond i'w gyflawni, rhaid mynnu bod arweinwyr y byd yn cadw at eu haddewidion.

1 In the Public Interest, Oxfam Rhyngwladol 2006
2 Ymgyrch Mileniwm y CU: www.millenniumcampaign.org

Bywyd Port-au-Prince, Haiti



Mae'r poster hwn yn dangos stryd yn Port-au-Prince, prifddinas Haiti, un o wledydd tlotaf y byd. Mae pobl yn symud o ardaloedd gwledig i Port-au-Prince yn y gobaith o gael gwaith, ond nid oes digon o dai ar eu cyfer, ac ychydig o dir sydd ar gael. Maent yn adeiladu cytiau ar unrhyw ofod sydd ar gael, yn aml mewn lleoliadau anaddas, megis ar geunant neu orlifdir. Mae hyn yn eu peryglu pan fo llifogydd, corwyntoedd, neu dirlithriadau.

Yn sgil diffyg cynllunio dinesig, nid oes darpariaeth ar gyfer gwasanaethau megis dŵr, glanweithdra neu gasglu sbwriel. Rhaid i bobl brynu dŵr o'r farchnad. Mae'r heolydd o safon isel. Mae'r nifer o bobl sy'n byw mewn tlodi mewn dinasoedd ledled y byd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Rhaid iddynt fyw mewn amodau gorlawn, budur, gyda thai anaddas, heb ddŵr glân na chyflenwad trydan, a heb gyfleusterau toiled addas. Mae hyn yn eu gadael yn agored i afiechyd, newyn a throsedd. Byddai cyflawni seithfed Nod Datblygu'r Mileniwm yn golygu y byddai'r bobl hyn, nad oes bai arnynt am eu tlodi, yn derbyn eu hanghenion sylfaenol.

Gweithgaredd poster (7–11 oed)

Bydd angen

- Darnau mawr o bapur i'w sticio o amgylch y poster
- Blu tack®
- Pinnau ffelt

1. Sticiwch y darnau papur o amgylch y poster i ffurfio ffrâm.
2. Gofynnwch i'r disgyblion edrych yn ofalus ar y llun a thrafod yr hyn a welir. Gofynnwch iddynt ystyried beth sy'n digwydd tu hwnt i ymylon y llun.
3. Yna gall disgyblion dynnu lluniau ar y papur o amgylch ymylon y llun er mwyn ehangu'r olygfa. Anogwch hwy i ddefnyddio'r cliwiau yn y llun.
4. Trafodwch unrhyw faterion sy'n codi, megis a ddylid gadael sbwriel yn y stryd fel hyn, a pham fod hyn wedi digwydd. Pa ffactorau fyddai'n bygwth iechyd pobl?

Gweithgaredd 7.1

Sut le sydd yn Port-au-Prince? (7–11 oed)

Nod

- Annog disgyblion i gydymdeimlo gyda thrigolion slymiau mewn gwledydd sy'n datblygu.

Bydd angen

- Arddangos Poster 7
- Byrlymau sgwrsio gludiog, neu ddarnau o bapur wedi'u torri mewn siâp byrlymau sgwrsio

1. Gofynnwch i'r disgyblion edrych ar y poster a thrafod yr hyn a welir. Gofynnwch iddynt ddychmygu pa synau sydd i'w clywed. Beth am yr arogl?
2. Sicrhewch fod disgyblion yn deall fod slymiau yn llefydd lle mae'n rhaid i bobl fyw, gydag ychydig iawn o gyfleusterau megis trydan, cyflenwad dŵr a glanweithdra, os o gwbl.
3. Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau o dri neu bedwar, a rhowch dri bwrlwm sgwrs i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried yn ofalus beth sydd i'w weld yn y llun, a dychmygu beth mae pobl yn ei feddwl neu ddweud. Trafodwch rai o'u syniadau gyda'r dosbarth, yna gludiwch y byrlymau sgwrs o amgylch y poster. Edrychwch ar y geiriau y mae'r disgyblion wedi'u cynnig i weld beth a synhwyrwyd.
4. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu barddoniaeth, naill ai yn unigol neu mewn grwpiau.

Gweithgaredd 7.2

Beth sy'n digwydd i'n sbwriel? (7–11 oed)

Nod

- Annog disgyblion i feddwl am wastraff yn y DU.
- Eu cynorthwyo i ystyried y broblem o wastraff cynyddol.

1. Holwch i'r disgyblion 'Beth yw sbwriel?' Beth sydd yn y sach sbwriel sy'n cael ei daflu yn eu cartrefi?
2. Gofynnwch iddynt sut mae'r sbwriel yn eu cartrefi yn cael ei waredu. Ble mae'n mynd? Eglurwch fod sbwriel fel rheol yn mynd i safle tirlenwi mewn lori, ac yn cael ei daflu i dwll mawr, yn aml mewn hen chwarel.
3. Cyflwynwch rai o'r materion ynglŷn â gwastraff. A oes digon o le i'n holl sbwriel? Beth ddylid ei wneud i leihau'r swm o wastraff yr ydym yn ei greu? A oes rhywbeth yn cael ei ailgylchu? Beth? Pwy sy'n trefnu hyn? Gofynnwch i'r disgyblion pa ffyrdd eraill sydd i ddelio gyda gwastraff, e.e. ailgylchu, compostio, creu ynni o wastraff. Beth sy'n cael ei ailgylchu yn y cartref? A oes modd lleihau gwastraff mewn ffyrdd eraill, er enghraifft drwy brynu llai, neu atgyweirio yn lle prynu pethau newydd?
4. Gofynnwch i'r disgyblion gadw'r holl becynnu sy'n dod gyda'u pecyn bwyd am wythnos. Casglwch yr holl eitemau a'u dangos i'r dosbarth ar ôl wythnos. A oes modd defnyddio llai o becynnu? Beth mae'r ysgol yn ei wneud am wastraff? Gofynnwch iddynt dynnu lluniau i ddangos sut gellid gwella'r ardal leol neu ysgol.

Gwaith pellach

Gellid gwneud arddangosfa o'r lluniau gyda sylwadau'r plant am y gwelliannau yr hoffent eu gwneud i'w hardal leol. Gellid hefyd annog y dosbarth i godi materion amgylcheddol gyda'r cyngor ysgol. Gellid awgrymu, er enghraifft, fod yr ysgol yn darparu biniau ailgylchu ar gyfer caniau, papur, cardfwrdd, plastig a deunyddiau eraill y gellir eu hailgylchu.

Y gwir am slymiau

Gan ddefnyddio'r gwefannau isod a'ch gwybodaeth am Port-au-Prince (y ddinas ar y poster), ticiwch y blychau i ddangos a yw'r datganiadau yn wir neu gau.

www.dfid.gov.uk/Global-Issues/Millennium-Development-Goals/7-Ensure-environmental-sustainability/
www.citymayors.com/report/slums.html

		Gwir	Gau
1	Mae teledu lliw gan nifer o dai yn slymiau Bangkok.		
2	Yn Nairobi mae 60 y cant o'r boblogaeth yn byw mewn slymiau.		
3	Mae dros 41 y cant o deuluoedd slymiau Kolkata (Calcutta) wedi byw mewn slymiau ers dros 30 o flynyddoedd.		
4	Mae tua 550 miliwn o bobl Asia yn byw mewn slymiau.		
5	Mae slymiau yn llefydd heb wasanaethau sylfaenol.		
6	Mae o leiaf 900 miliwn o bobl y byd yn byw mewn slymiau.		
7	Mae slymiau yn gartrefi dros dro.		
8	Mae pobl sy'n byw mewn slymiau yn aml mewn perygl o gael eu troi allan o'u tai.		

Ystadegau o *The Challenge of Slums: Global Report on Human Settlements*, Rhaglen Aneddiadau Dynol y CU 2003.

Beth yw slym?

Mae cartrefi slym yn cael eu diffinio gan UN-Habitat (Rhaglen Aneddiadau Dynol y Cenhedloedd Unedig) fel cartrefi heb gyflenwad dŵr digonol, cyfleusterau glanweithdra digonol, ardal byw ddigonol (gorlenwi), safon strwythurol dderbyniol na/neu sicrwydd daliadaeth.

Gweithgaredd 7.3

Nod

- Dysgu disgyblion am fywyd mewn slym.

Bydd angen

- Copi o *Y gwirionedd am slymiau* ar dudalen 5 ar gyfer pob disgybl

Y gwirionedd am slymiau (9–14 oed)

1. Gofynnwch i'r disgyblion wneud y cwis gwir/gau a thrafod eu hatebion gyda phartner. A oedd unrhyw beth yn eu synnu?

   Atebion i'r cwis: 1 gwir, 2 gwir – mae Nairobi yn gartref i un o'r slymiau mwyaf â phoblogaeth dwysaf yn y byd, 3 gwir, 4 gwir, 5 gwir, 6 gwir, 7 gau, 8 gwir – fel rheol nid oes unrhyw sicrwydd daliadaeth.

2. Ewch drwy'r rhestr ganlynol gyda'r dosbarth a gofynnwch iddynt sut gellid gwella problem y slymiau:

   • gwella heolydd, trafnidiaeth a bywoliaethau mewn ardaloedd gwledig

   • darparu gwasanaethau megis dŵr a glanweithdra i slymiau

   • llywodraeth sefydlog

   • mynediad at gredyd ar gyfer tlodion

   • sicrhau fod hawliau pobl sy'n byw mewn slymiau yn cael eu parchu

   • darparu addysg gynradd rhad ac am ddim.

Gweithgaredd 7.4

Nod

- Archwilio materion cynhesu byd-eang a datblygiad cynaliadwy.
- Caniatáu i ddisgyblion ystyried sut ddyfodol hoffent ei weld.

Bydd angen

- Erthyglau papur newydd am newid hinsawdd

neu

- Mynediad at y rhyngrwyd neu lyfrgell yr ysgol

Dyfodol dewisol (11–14 oed)

Nodyn: Bydd angen i ddisgyblion gasglu erthyglau papurau newydd am newid hinsawdd am rai dyddiau cyn gwneud y gweithgaredd hwn. Neu gellid edrych ar y we am yr erthyglau. Ffynonellau da ar gyfer hyn yw gwefannau papurau cenedlaethol a gwefan newyddion y BBC (http://news.bbc.co.uk/).

1. Gan ddefnyddio'r erthyglau fel pwynt cychwynnol, nodwch y prif faterion yn y drafodaeth am newid hinsawdd. Nodwch rai o gwestiynau'r disgyblion sy'n codi o'r drafodaeth. Gosodwch y cwestiynau hyn i grwpiau bychain, a gofynnwch iddynt ymchwilio i'r atebion gan ddefnyddio'r rhyngrwyd neu lyfrau cyfeirio.
2. Gofynnwch i'r grwpiau rannu canlyniadau eu hymchwil gyda'r dosbarth a chychwyn ystyried:
   - beth a gyfrannodd at y sefyllfa bresennol
   - beth fydd y dyfodol tebygol ar gyfer y byd mewn deg, ugain neu ddeg ar hugain o flynyddoedd os na fyddwn yn gweithredu.
3. Gofynnwch i'r grwpiau sut fyd yr hoffent ei weld mewn deg, ugain neu ddeg ar hugain o flynyddoedd. Gallant nodi eu syniadau ar linellau amser 'dewisol' a 'tebygol', fel y gwelir isod. Gellid tynnu lluniau.



Llwyddiannau Datblygiad Cynaliadwy

Roedd gan un o bum prif gwaith trin dŵr Basra, Gorsaf Bwmpio Al Hartha, hen offer electronig a pheirianyddol gan olygu nad modd dibynnu ar y cyflenwad dŵr o'r orsaf. Ym mis Tachwedd 2006 ariannodd yr Adran Dros Ddatblygu Rhyngwladol brosiect i adnewyddu'r orsaf bwmpio. Ailosododd y prosiect 15 o bympiau, atgyweiriwyd saith arall, darparwyd eitemau trydanol newydd ac adeiladwyd tŷ gwarchod newydd. Cwblhawyd y gwaith ym mis Chwefror 2007, gan wella'r cyflenwad dŵr ar gyfer tua 500,000 o bobl (dros chwarter poblogaeth Basra a'i maestrefi.)

Effaith: Goruchwyliwyd y prosiectau hyn gan gontractwyr o Iraq, ac fe grëwyd tua 25,000 o ddyddiau gwaith i bobl Iraq. Ers 2003 mae'r cyflenwad dŵr wedi cynyddu hyd at 30 y cant mewn rhai ardaloedd, a'r cyflenwad trydan wedi gwella i 1.5 miliwn o bobl Basra, ac fe ailosodwyd 200 cilomedr o bibau dŵr de Iraq.

Er mwyn sicrhau fod y gwelliannau yn cael eu cynnal, mae'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol hefyd wedi ariannu canolfan hyfforddi sy'n dysgu sgiliau cynnal a chadw i beirianwyr. Mae'n darparu gwersi ymarferol mewn trwsio pibau sy'n gollwng, atgyweirio offer, trin dŵr a gweithio'n ddiogel. Mae'r ganolfan yn Basra a agorodd fis Mawrth 2006 wedi cefnogi datblygiad dros 2,000 o staff mewn pedair talaith.

Mae'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol yn rhan o lywodraeth y DU sy'n rheoli cymorthdaliadau Prydain i wledydd tlawd, ac yn gweithio i roi terfyn ar dlodi eithafol. Mae'n cael ei arwain gan weinidog cabinet, un o'r gweinidogion uchaf yn y llywodraeth.

Daeth llwyddiannau fel yr un uchod drwy bartneriaeth rhwng gwledydd sy'n cyfrannu, megis y DU, ac Iraq. I sicrhau fod ein llywodraeth yn parhau i gefnogi prosiectau fel hyn, mae cyrff ymgyrchu anllywodraethol fel Oxfam yn gweithredu i atgoffa'r rhai mewn awdurdod am eu haddewidion. Dyma rai awgrymiadau am gamau y gall myfyrwyr eu cymryd i gefnogi prosiectau fel hyn ledled y byd.

Camau

- Cwblhau'r daflen waith ar dudalen 8
- Cynnal archwiliad amgylcheddol o'ch ysgol, gan adrodd wrth eich Pennaeth/Cadeirydd y Llywodraethwyr
- Cychwyn ymgyrch wedi'i anelu at yr Awdurdod Lleol, Pennaeth/Bwrsar a Chadeirydd y Llywodraethwyr er mwyn eu hannog i droi at gyflenwr ynni gwyrdd ar gyfer yr ysgol.
- Casglu sbwriel o amgylch eich ysgol neu dref, a'i bwyso! Ysgrifennwch erthygl i'r papur lleol/cylchlythyr yr ysgol am y sbwriel a ganfuwyd. Gosodwch darged i'w leihau erbyn y casgliad sbwriel nesaf. Cynigiwch gyngor ar arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.
- Gwnewch furlun o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu/taflu a'i arddangos yn amlwg yn yr ysgol gyda phwyntiau pwysig am greu amgylchedd cynaliadwy.
- Gwahoddwch eich Pennaeth i gael cinio yn ffreutur yr ysgol, a thrafodwch ffyrdd o wella'r ysgol, gan gynnwys lleihau gwastraff bwyd.

Codi arian

- Cynnal arddangosfa luniau o'r amgylchedd leol a chodi tâl mynediad. Ceisiwch gynnwys delweddau cadarnhaol yn ogystal â negyddol.
- Cyfranogwch yn *Her Yma, Nawr* a gofyn i bobl eich noddi am fis. www.oxfam.org.uk/get_involved/campaign/activists/village

NODER Cofiwch ein hysbysu am unrhyw gamau gennych chi neu'ch disgyblion. education@oxfam.org.uk

Am fwy o adnoddau am yr amgylchedd ewch at:

www.oxfam.org.uk/education/resources/climate_change_past_present_future

www.oxfam.org.uk/education/resources/climate_change_responses

www.oxfam.org.uk/education/resources/climate_change_the_human_impact

www.oxfam.org.uk/education/resources/climate_chaos

Gweithredu dros yr Amgylchedd
– Mae gwastraffu adnoddau yn warthus!



1. Nodwch eich enw a neges am Nod Datblygu'r Mileniwm 7.

2. Addurnwch eich bin. Meddyliwch am bethau sy'n cael eu taflu y gellid eu hail ddefnyddio neu ailgylchu.

3. Gwnewch arddangosfa o'ch biniau i'w ddangos i eraill, neu anfonwch y llun at:

Tîm Ieuenctid ac Ysgolion
Oxfam House
John Smith Drive
Rhydychen OX4 2JY

Fe wnawn yn siŵr fod eraill yn clywed am eich teimladau.